# 1940: Llundain wedi dioddef 'Blitz' gan awyrennau bomio'r Almaen

Mae awyrlu'r Almaen wedi gwneud ton ar ôl ton o gyrchoedd bomio trwm ar Lundain, gan ladd cannoedd o sifiliaid ac anafu llawer mwy.

Dywedodd y Gweinidog Diogelwch Cartref mai dyma'r ymosodiadau mwyaf yr oedd yr Almaenwyr wedi'u gwneud hyd yma.

"Mae ein hamddiffynfeydd wedi bod yn ymgiprys â'r gelyn ym mhobman," meddai neges a gyhoeddwyd heno.

"Mae'r gwasanaethau amddiffyn sifil yn ymateb yn wych i bob galwad."

> Bomiwyd adeilad pum llawr, lle roedd sifiliaid yn byw, a daliwyd nifer o sifiliaid o dan y rwbel.

Digwyddodd y cyrchoedd cyntaf tua diwedd y prynhawn, ac roedden nhw'n canolbwyntio ar ardal yr East End, lle mae'r boblogaeth yn ddwys, ar hyd afon Tafwys wrth ddociau Llundain.

Ymosododd tua 300 o awyrennau bomio ar y ddinas am dros awr a hanner. Roedd ardal y dociau i gyd fel petai'n wenfflam wrth i gannoedd o danau oleuo'r awyr.

Ar ôl iddi nosi, roedd y tanau i'w gweld dros 10 milltir i ffwrdd, a chredir bod y golau wedi arwain ail don o awyrennau bomio'r Almaen a ddechreuodd ymddangos tua 2030 BST (1930 GMT).

Parhaodd y bomio yn ystod y nos dros wyth awr, gan siglo'r ddinas gyda sŵn byddarol cannoedd o fomiau'n cwympo mor agos at ei gilydd, prin roedd unrhyw egwyl rhyngddyn nhw.

Ffrwydrodd un bom ar loches cyrch awyr oedd dan ei sang yn Nwyrain Llundain.

Cwympodd y bom, mewn digwyddiad a gafodd ei ddisgrifio fel 'siawns miliwn i un', yn uniongyrchol ar y siafft awyru 3 troedfedd (90cm) wrth 1 droedfedd (30cm) - yr unig fan agored i ddifrod mewn lloches dan ddaear gadarn lle roedd lle i dros 1,000 o bobl.

Credir bod tua 14 o bobl wedi cael eu lladd a 40 wedi'u hanafu, gan gynnwys plant.

Gweithiodd gweithwyr amddiffyn sifil drwy'r nos, yn aml yn wyneb bomio trwm, i fynd â phobl o afael y tanau ac i ddod o hyd i loches dros dro a bwyd iddyn nhw.

Talodd swyddog deyrnged i staff mewn un ysbyty yn Llundain a gafodd ei daro gan ddweud, "Roedden nhw'n anhygoel o ddewr, dalion nhw ati hyd nes ei bod hi'n gwbl amhosibl oherwydd bod y bomiau'n ffrwydro a'r drylliau'n tanio."

Yn yr awyr, datblygodd cyfres o frwydrau ffyrnig wrth i awyrennau'r Almaen hedfan i fyny aber afon Tafwys.

Mae'r Weinyddiaeth Awyr yn dweud bod o leiaf 15 o awyrennau'r gelyn wedi cwympo i'r aber. Yn ôl y Weinyddiaeth, cafodd 88 awyren o'r Almaen eu saethu i lawr i gyd, yn erbyn 22 o awyrennau'r RAF a gollwyd.